16 June 2025

Annwyl Glaf,

**PARTHED: Cais gan Bractis Gogledd Celynen i gau safle cangen eu meddygfa yn Nhrecelyn**

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi derbyn cais gan Bractis Gogledd Celynen i gau safle cangen eu meddygfa yn Ffordd Ashfield, Trecelyn.

Os cefnogir y cais i gau cangen y feddygfa yn Nhrecelyn, byddai hyn yn golygu y bydd angen i gleifion gael mynediad at y gwasanaethau Meddyg Teulu a ddarperir yn y prif safle yng Nghrymlyn a fyddai'n aros ar agor. Fel arall, gall cleifion ddewis i gofrestru gyda phractis cyfagos arall, ar yr amod eu bod yn byw o fewn ffiniau'r practis hwnnw.

Mae'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd ystyried y cais hwn, ac mae'n gwneud hyn ar y cyd ag Aneurin Bevan, Llais a Phwyllgor Meddygol Lleol Gwent.

Fel rhan o'r broses hon, rydym yn awyddus i gleifion sy'n defnyddio cangen y -feddygfa yn Nhrecelyn gael y cyfle i roi gwybod i ni am eu safbwyntiau, felly rydym yn cynnal cyfnod o ymgysylltu â chleifion sy'n 16 oed a hŷn.

**Byddwn yn ddiolchgar pe gallech gwblhau'r holiadur ar-lein erbyn 1af o Awst 2025.**

Gallwch gael mynediad at yr holiadur ar-lein gan ddefnyddio'r cod QR dros y dudalen. I agor y wefan, gwnewch y canlynol:

- Agorwch y camera ar eich ffôn symudol
- Anelwch y camera at y cod QR, efallai y byddwch angen clicio ar "open in browser" i gael mynediad
- Fel arall, mae sganwyr QR ar gael yn yr Ap neu Play Stores.

Dyma'r cod QR ar gyfer sganio gyda ffôn symudol:

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan**
Is-adran Gofal Sylfaenol a Gwasanaethau Cymunedol
Ty Llanarth
Uned 1, Porth Trecelyn
Stryd y Bont
TRECELYN
NP11 5GH
Ffon: 01495 241200

**Aneurin Bevan University Health Board**
Primary Care and Community Services Division
Llanarth House
Unit 1, Newbridge Gateway
Bridge Street
NEWBRIDGE
NP11 5GH
Tel: 01495 241200

NCP, Newbridge Branch Closure Application Patient Engagement Questionnaire

Os byddwch yn profi unrhyw anawsterau wrth sganio'r cod QR, gallwch gael mynediad at yr holiadur trwy deipio neu gopïo a gludo'r cyfeiriad isod ym mlwch chwilio eich porwr:

https://forms.office.com/e/Y3TJfHsAjY

Os byddwch yn profi unrhyw broblemau wrth gael mynediad at yr holiadur ar-lein, gofynnwch i ffrind neu berthynas i'ch helpu chi i gael mynediad at y wefan gan ddefnyddio eich ffôn clyfar neu gyfrifiadur.

Os nad oes unrhyw un ar gael i'ch helpu chi gyda hyn, yna cysylltwch ag aelod o'r Tîm Gofal Sylfaenol ar 01495 241254. Byddant yn eich cefnogi chi i gwblhau'r holiadur dros y ffôn neu gallant anfon fersiwn bapur i'ch cartref os yw'n well gennych. Gallwn hefyd anfon e-bost atoch gyda dolen i'r holiadur os byddwch yn rhoi eich cyfeiriad e-bost i aelod o'r Tîm Gofal Sylfaenol.

Nid oes yn rhaid i chi roi eich enw na'ch cyfeiriad ar yr holiadur, er y byddwn yn gwerthfawrogi pe gallech roi eich cod post. Mae'r holiadur ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg, ac mae opsiwn "darllenydd trochi" ar gyfer pobl sydd angen fformatau darllen eraill.

At hyn, bydd dwy sesiwn galw i mewn ar gyfer cleifion yn cael eu cynnal ym Meddygfa Ashfield Road ar y dyddiadau isod. Bydd staff y Bwrdd Iechyd a staff y practis ar gael i drafod sut y gallai cau'r feddygfa gangen effeithio arnoch chi:

- Dydd Mawrth 17eg Mehefin 2025 rhwng 4-6pm
- Dydd Iau 7fed Gorffennaf 2025 rhwng 12-2pm

Fel arall, gallwch gysylltu â Llais, a fydd yn gweithio'n agos gyda ni trwy gydol y broses hon, i fynegi eich safbwyntiau – Ffôn: 01633 838516.

Os bydd gennych unrhyw gwestiynau yn ymwneud â hyn, mae croeso i chi gysylltu ag aelod o'r Tîm Gofal sylfaenol ar 01495 241254.

Yr eiddoch yn gywir,



**Lloyd Hambridge**
**Cyfarwyddwr Adrannol**

**Gofal Sylfaenol, Gwasanaethau Cymunedol a Gofal Iechyd Cymhleth a Pharhaus (CHC)**
**Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan**